



disability wales  
anabledd cymru

AROLWG 2015-2016

Fersiynau Braille, print bras, tâp sain  
neu ddisg ar gael.

Mae Anabledd Cymru yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru

Cyhoeddwyd gan Anabledd Cymru 2016  
Anabledd Cymru yn elusen gofrestrdedig rhif 517391  
ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant rhif 1998621



**Tŷ'r Bont**  
**3 Parc Busnes Caerffili**  
**Heol Van**  
**Caerffili**  
**CF83 3GW**

**Ffôn:** 029 2088 7325  
(Minicom drwy'r cysylltydd)

**Ffacs:** 029 2088 8702

**Ebost:** [info@disabilitywales.org](mailto:info@disabilitywales.org)

**Gwefan:** [www.disabilitywales.org](http://www.disabilitywales.org)



Ar amni'r parhau  
lywodraeth Cymru  
funded by  
Welsh Government



INVESTORS | BUDDUSODDWRYR  
IN PEOPLE | Mewn Pobl



AR GYMRU GAN Y LOTERI  
LOTTERY FUNDED



## **Cenhadaeth**

Anabledd Cymru yw cymdeithas genedlaethol cyrff pobl anabl sy'n brwydro dros hawliau, cydraddoldeb ac annibyniaeth pob person anabl.

## **Nodau strategol**

Datblygu a chefnogi gwaith cyrff a arweinir gan bobl anabl

Gweithredu fel eiriolwr effeithiol o farn, blaenoriaethau a diddordebau ein haelodau

Dylanwadu ar bolisiau a llunwyr penderfyniadau ar bob lefel

Datblygu a darparu gwasanaethau er lles pobl anabl

## **Amcanion strategol**

Datblygu Anabledd Cymru fel corff aelodaeth cadarn sy'n gallu cynrychioli diddordebau'r aelodau yn effeithiol

Hysbysu'r llywodraeth ac arweinwyr eraill o ddiddordebau pobl anabl gyda'r nod o ddatblygu polisiau er lles pob anabl

Cydweithio mewn partneriaeth ag eraill i lunio a gweithredu ymgyrchoedd i wella gwasanaethau a chodi ymwybyddiaeth o faterion anabledd

Datblygu trefniadau cyllid cynaladwy

Cynnal trefniadau llywodraethu a rheoli effeithiol a chynaladwy

Monitro a mesur effaith gwaith Anabledd Cymru



# Adroddiad y Cadeirydd 2015/2016

Profodd yn flwyddyn brysur ond heriol i bob un ohonom yn Anabledd Cymru.

Er yr ansicrwydd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol ynglŷn â'r trefniadau cyllid dros dro, wrth i Lywodraeth Cymru ddatblygu cynllun cyllid newydd, roedd dal angen gweithredu rhaglen waith a chynnal y corff!

Parhaodd gwaith ein projectau, gyda Galluogi Cymru, Mentrau Cydweithredol dan Arweiniad Dinasyddion a DRILL yn mynd yn eu blaen wrth gefnogi eu haelodau a chynulleidfaoedd. Maent wedi profi'n arloesol yn eu gwahanol ffyrdd, gan ddenu diddordeb sylweddol gan bartneriaid a chyrrff allanol. Ac roedd hynny ar ben gwaith beunyddiol y corff yn hyrwyddo hawliau a chydaddoldeb pobl anabl.

Fel y gwyddoch, mae cyllid yn dal yn broblem. Ym mis Rhagfyr cawsom wybod nad oedd ein cais i adran gwasanaethau cymdeithasol Llywodraeth Cymru am

gymorth ariannol pellach wedi bod yn llwyddiannus. Y rheswm oedd bod newidiadau i'r meini prawf wedi anfanteisio cyrrff ymbarél fel Anabledd Cymru. O fis Mawrth 2016 ymlaen, byddai cyllid ond ar gael ar gyfer projectau, oedd yn ergyd enfawr i bawb yn AC. Arweiniodd hynny at ansicrwydd mawr i'r corff, ein staff ac yn amlwg aelodau unigol a grwpiau pobl anabl. Mae ein prif weithredwraig wedi

trafod y newidiadau i staff a strwythur AC, ond rwyf am ddiolch pawb o fewn a thu allan sector gwirfoddol Cymru am eu cymorth.

Fel arfer, mae'r Bwrdd Cyfarwyddwyr wedi parhau i ddatblygu sesiynau hyfforddi grŵp ac unigolion er mwyn datblygu ein sgiliau o fewn amgylchedd busnes sy'n newid gydol yr amser. Trefnir nhw ar sail cyfweiliadau datblygu personol bob blwyddyn a chanlyniadau adolygiad strategol

“

**Parhaodd gwaith ein projectau, Maent wedi profi'n arloesol yn eu gwahanol ffyrdd, gan ddenu diddordeb sylweddol gan bartneriaid a chyrrff allanol.**



a gynhelir yn rheolaidd wrth holi'r staff ac aelodau'r Bwrdd.

Yn ystod y flwyddyn, gadawodd rhai o aelodau'r Bwrdd, sef April Harper, Alan Thomas a'r cyn-drysorydd Steve Sweetman. Diolch i bob un ohonynt am neilltuo amser, ymdrechion a chymorth ar ran AC, a phob dymuniad da iddynt ar gyfer y dyfodol. Ers y cyfarfod cyffredinol blynyddol diwethaf, ailymunodd Delwyn Evans ar ôl

cyfnod byr i ffwrdd, ac fe groesawyd Marilyn Jarrett a Willow Holloway fel aelodau newydd. Rydym yn gobeithio byddant yn mwynhau bod yn rhan o siapio a thyfu Anabledd Cymru wrth i ni edrych tua'r dyfodol.

Diolch i bob aelod staff am eu gwaith caled a brwdfrydedd wrth barhau â gwaith AC o dan amgylchiadau anodd iawn; y Bwrdd Cyfarwyddwyr am eu cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn, a Rhian Davies, ein prif weithredwraig am ei gweledigaeth wrth yrru Anabledd Cymru yn ei flaen a gweithio er hawlio cydraddoldeb a byw'n annibynnol ar gyfer pob person anabl yng Nghymru.

**Wendy Ashton** *Cadeirydd*



# Adroddiad y Trysorydd 2015/2016

Yn adroddiad y llynedd, dywedais mai cyllid 2014-2015 oedd blwyddyn olaf pecyn cyllid tair blynedd gan Lywodraeth Cymru, gyda threfniadau ar gyfer cyllid trawsnewid yn 2015-2016 mewn cysylltiad â'n gwaith craidd, er yn destun gostyngiad o 5%.

Mae'n amlwg, mewn termau real roedd hyn yn cynrychioli gostyngiad uwch wrth ystyried costau blwyddyn i flwyddyn, felly roedd galw arnom i weithio'n llawer caletach i gynhyrchu incwm er mwyn pontio'r bwlch a datblygu arbenigedd ym maes codi arian. Rydym yn chwilio am gyfleoedd cyllid hir dymor, a dulliau amgen o grynhoi arian i ariannu ein gwaith. Mae'r Bwrdd ac AC yn gyffredinol yn gweithio'n galed i weld sut allwn gynnal dyfodol ariannol cadarn a chynnaladwy.



Er y cyni ariannol ar draws y trydydd sector, nid yn unig gyda chyrrff pobl anabl, profodd yn flwyddyn brysur a chynhyrchiol iawn. Rwyf wedi dweud o'r blaen mai un o'r ffyrdd o rannu arian prin yw gweithio mewn partneriaeth â chyrrff gyda diddordebau tebyg sy'n parchu'r un amcanion a gwerthoedd. Mae projectau Galluogi Cymru a Mentrau Cydweithredol dan Arweiniad Dinasyddion yn bartneriaethau o dan arweiniad AC, gyda'r ddau yn profi'n werthfawr wrth ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a rhwydweithiau cymorth ar gyfer y cyfranogwyr. Mae gen i ddiddordeb penodol yn y project Mentrau Cydweithredol wrth fod yn gadeirydd y grŵp ymgynghori, gan fynychu nifer o ddigwyddiadau yn ystod ei flwyddyn gyntaf. Profiad newydd i ni wrth gydweithio gyda Chanolfan Cydweithredol Cymru, gyda'r ddau gorff wedi dysgu o'i gilydd mewn ffordd ble gallwn adeiladu ar gyfer y dyfodol.

## Argymhellion yr Archwilydd

Roedd prif argymhellion yr archwilydd yn ymwneud â diogelu dyfodol hir dymor y corff, a pharhau i warchod ein harian o fewn cynllun diogelu cyllid y Llywodraeth. Gostyngwyd y swm a ddiogelir o dan un drwydded i £75,000, ond gyda'n bondiau mewn cynlluniau hir dymor byddwch yn sylwi bod ein symiau yn

y cynlluniau unigol yn uwch na'r ffigur hwn. Byddwn yn monitro hynny'n barhaus yn erbyn y costau fyddai'n daladwy wrth newid ein pecynnau cyn cyrraedd diwedd eu hoes, a'r angen i ddefnyddio'r arian dros y tymor byr o dderbyn bod ein sefyllfa ariannol yn newid.

### **Symud ymlaen**

Erbyn hyn mae'r newidiadau i'r rheoliadau pensiwn yn effeithio pob cyflogwr, ac er nad yw ein "dyddiad newid" tan y flwyddyn nesaf, mae paratodau ar y gweill i fabwysiadu'r gweithdrefnau newydd.

Yn Rhagfyr 2015, clywsom nad oedd ein cais cyllid bellach yn diwallu meini prawf newydd Llywodraeth Cymru, ac mae ein prif weithredwraig ac eraill wedi nodi'r argyfwng mae hynny wedi achosi o fewn y corff. Mae wedi galw am ddulliau gweithredu a chyllido newydd sbon, ac fe gyflwynwyd llawer o newidiadau yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ariannol. Byddwn yn parhau i weithio i greu corff cynaladwy dros yr hir dymor ac i helpu'r aelodau i frwydro er mwyn mynnu hawliau cyfartal ar gyfer pob person anabl.

Yn olaf, diolch i Paula Reed, ein rheolwraig swyddfa ac adnoddau, am ei holl waith wrth baratoi'r cyfrifon a'r gwaith papur cysylltiedig, ac i gwmni cyfrifwyr ac archwilwyr Broomfield & Alexander am eu cymorth a chyngor drwy gydol y flwyddyn.

**Mandi Glover** *Trysorydd*

“**Un o'r ffyrdd o rannu arian prin yw gweithio mewn partneriaeth â chyrrff gyda diddordebau tebyg sy'n parchu'r un amcanion a gwerthoedd.**”

# Datganiad gweithgareddu Ariannol

(gan ymgorffori'r CYFRIF INCWM A GWARIANT)  
Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2016

	Cronfeydd anghyfngedig	Cronfeydd cyfyngedig	Cyfanswm cronfeydd 2016	Cyfanswm cronfeydd 2015
	£	£	£	£
<b>Incwm a gwaddolion:</b>				
Rhoddion & cymynroddion	402,702	-	402,702	423,357
Gweithgaredd elusennol	66,453	235,447	301,900	224,083
Buddsoddiadau	1,820	-	1,820	278
<b>Cyfanswm incwm a gwaddolion</b>	<b>470,975</b>	<b>235,447</b>	<b>706,422</b>	<b>647,718</b>
<b>Gwariant:</b>				
Gweithgaredd elusennol	476,628	238,659	715,287	656,268
<b>Cyfanswm gwariant</b>	<b>476,628</b>	<b>238,659</b>	<b>715,287</b>	<b>656,268</b>
<b>Symudiadau cronfeydd net</b>	<b>(5,653)</b>	<b>(3,212)</b>	<b>(8,865)</b>	<b>(8,550)</b>
<b>Cysoni cronfeydd</b> Cronfeydd dygwyd ymlaen	<b>388,942</b>	<b>2,330</b>	<b>391,272</b>	<b>399,822</b>
<b>Cronfeydd cariwyd ymlaen</b>	<b>383,289</b>	<b>(882)</b>	<b>382,407</b>	<b>391,272</b>



# Mantolen

Ar 31 Mawrth 2016

	2016		2015	
	£	£	£	£
<b>Asedau cyfredol:</b>				
Dyledwyr	68,691		91,058	
Arian yn y banc ac mewn llaw	397,367		377,187	
	<u>466,058</u>		<u>468,245</u>	
<b>Rhwymedigaethau:</b>				
Credydwyr: Symiau dyledus o fewn blwyddyn	(83,651)		(76,973)	
Asedau cyfredol net		<u>382,407</u>		<u>391,272</u>
<b>Asedau net</b>		<u>382,407</u>		<u>391,272</u>
<b>Cronfeydd yr elusen:</b>				
Cronfeydd incwm cyfyngedig		(882)		2,330
Cronfeydd incwm anghyfyngedig		383,289		388,942
<b>Cyfanswm cronfeydd yr elusen</b>		<u>382,407</u>		<u>391,272</u>

# Bwrdd

**Cyfarwyddwyr** 2015/2016

## **Cadeirydd**

Wendy Ashton

## **Trysorydd**

Stephen Sweetman *ymddiswyddodd 8 Hydref 2015*

Mandi Glover *penodwyd 8 Hydref 2015*

## **Is-gadeirydd**

April Harper *ymddiswyddodd 19 Awst 2015*

## **Aelodau Bwrdd**

Natasha Hirst

David Power

Terry Mills

Alan Thomas *ymddiswyddodd 8 Hydref 2015*

Trevor Palmer

Simon Green

Delwyn Evans *penodwyd 8 Hydref 2015*

Caroline Holloway *penodwyd 8 Hydref 2015*

Marilyn Jarrett *penodwyd 8 Hydref 2015*



# Cyflwyniad ein Prif Weithredwraig

Disgrifiad addas o 2015/16 fyddai blwyddyn o brofiadau cymysg. Hyd at ddiwedd yr hydref, roedd Anabledd Cymru wedi mwynhau proffil uchel gyda'i waith wrth ymgyrchu dros hawliau, cydraddoldeb a byw'n annibynnol ar ran pobl anabl. Roedd yn cynnwys gweithredu projectau arloesol Galluogi Cymru a Mentrau Cydweithredol dan Arweiniad Dinasyddion; lansio Maniffesto Pobl Anabl a phroject newydd Byw'n Annibynnol a Dysgu (DRILL); ynghyd â chynhadledd flynyddol lwyddiannus yn trafod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014).



Yn y gynhadledd, canmolwyd Anabledd Cymru a'i aelodau gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Athro Mark Drakeford AC, am eu cyfraniad gwerthfawr at ddatblygu'r Ddeddf:

"Mae effaith Anabledd Cymru ac eraill wedi bod yn enfawr o'r cychwyn gyda'r pecyn adnoddau [Model Cymdeithasol] ac effaith barhaol hwnnw, drwy'r grwpiau technegol a'r ffordd roedd Anabledd Cymru yn cael dylanwad ar y manylion bydd y Deddf hon yn dibynnu arnynt."

Wedi dweud hynny, gwrthodwyd cais Anabledd Cymru am grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynladwy Trydydd Sector gan Lywodraeth Cymru yn dilyn y newid o ddarparu cyllid craidd i ariannu projectau. Trosglwyddwyd y neges ddifrifol bod AC wedi colli ei brif ffynhonnell gyllid mewn ebost, gyda'r posibilrwydd y byddai'r corff yn gorfod dirwyn i ben erbyn y gwanwyn dilynol.

Aeth Bwrdd a staff AC ati i ddefnyddio'u sgiliau lobio



profiadol er mwyn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru yn fewnol ac allanol mewn ymdrech i adfer y sefyllfa. Profodd yn newyddion syfrdanol ar draws y wlad, gyda sefyllfa AC yn destun adroddiadau newyddion ar y teledu, radio, papurau newydd a chyfryngau arlein.

Mynegodd yr aelodau eu siom wrth ddweud byddai'r bygythiad i ddyfodol y corff yn "newyddion difrifol i hawliau pobl anabl yng Nghymru" ac yn "echrydus", gydag un yn trydar: "Meddwl am Gymru heb AC - mae arswydus yn ddisgrifiad annigonol".

**Er bod yr adran gwasanaethau cymdeithasol wedi cyllido'r corff am dros 40 blynedd, wrth leisio barn cyrff pobl anabl mae AC yn gweithio ar draws adrannau, yn cynnwys tai, trafnidiaeth, cynllunio a dyfodol tecach.**

Roedd llawer o randdeiliaid AC yn methu credu penderfyniad Llywodraeth Cymru, gan nodi 'profiad, cynrychiolaeth.... proffil a'r.... cyfraniad galluog ac effeithiol at lywio polisiau gofal cymdeithasol Cymru ar gymaint o faterion'.

Nid oes llawer o gyrff Cymreig yn adlewyrchu cwmpas polisiau AC a'r gallu i gynrychioli barn aelodau ar draws y wlad. Er bod yr adran gwasanaethau cymdeithasol wedi cyllido'r corff am dros 40 blynedd, wrth leisio barn cyrff pobl anabl mae AC yn gweithio ar draws adrannau, yn cynnwys tai, trafnidiaeth, cynllunio a dyfodol tecach. Mae'n cynnwys bod yn rhan o grwpiau rhanddeiliaid ynghyd â chyd-drefnu atebion i ymgynghoriadau sy'n cyfrannu'n sylweddol at faterion polisi fel teithio actif, cofrestrau tai hygrych, datganiadau cynllunio a mynediad a throseddau atgasedd.

Dywedodd llawer o gyrff eu bod yn dibynnu ar AC i drafod materion tu hwnt i'w cylch gwaith nhw, tra bod swyddogion wedi mynegi pryderon am gysylltu â phobl anabl yn y dyfodol heb gorff cydlynu cenedlaethol.

Yn ôl yr aelodau, roedd colli'r grant craidd yn ymosodiad arall ar bobl anabl yn dilyn diwygiadau lles Llywodraeth San Steffan sydd wedi arwain at doriadau mawr mewn budd-daliadau a gwasanaethau. Ar ben hynny, yn y cyfnod yn arwain at Etholiadau'r Cynulliad, ni fyddai cau corff cenedlaethol pobl anabl yn adlewyrchu'n dda ar y llywodraeth bresennol.

Ar ôl cyfnod negodi estynedig, cytunodd gweinidogion Llywodraeth Cymru becyn cyllid gwerth £600,000 dros dair blynedd drwy'r adran Dyfodol Tecach. Y nod yw helpu AC i ddatblygu sylfaen ariannol fwy cynladwy, ond bydd yn dal i gynrychioli gostyngiad o 50% yn ei gyllid dros y cyfnod.

Yn dilyn hynny trefnodd AC adolygiad strategol gyda'r nod o ostwng gwariant a chreu ffynonellau cyllid newydd, gan alw ar y Bwrdd i wneud penderfyniadau anodd. Bydd codi'r cyllid angenrheidiol dros gyfnod byr yn her fawr, yn arbennig wrth geisio cynnal safonau gweithredu uchel y corff.

Oherwydd yr ansicrwydd, penderfynodd sawl aelod staff i symud ymlaen i swyddi gyda chyrrff eraill, gyda Rhyan Berrigan, Julie Bilton, Tina Evans, Rebecca Newsome, Kelly Stuart a Paul Swann yn canu ffarwel. Rhyngddynt, roeddent wedi cofnodi dros 50 blynedd o wasanaeth ac rydym yn ddiolchgar iawn am eu gwaith caled a'u cyfraniad gwerthfawr at Anabledd Cymru.

Diolch hefyd i bawb sydd wedi'n cefnogi dros y cyfnod diweddar ac am yr ewyllys da a'r cymorth anhygoel i'n helpu i oresgyn ein problemau. Yn benodol, rydym yn ddiolchgar i'n haelodau am leisio'u barn mor huawdl wrth esbonio pa mor bwysig yw AC iddynt a'r rôl mae'n chwarae yn eu bywydau, fel unigolion a rhan o grwpiau.



**Bydd codi'r cyllid  
angenrheidiol dros  
gyfnod byr yn her fawr,  
yn arbennig wrth geisio  
cynnal safonau  
gweithredu uchel y corff.**



Mae'r Bwrdd Cyfarwyddwyr, o dan arweiniad Wendy Ashton wedi parhau i frwydro'n galed ar ran AC, gan deithio dros y wlad a neilltuo cannoedd o oriau er mwyn sicrhau dyfodol cynladwy ar gyfer y corff. Diolch o galon i bob un ohonynt, ynghyd â'n fîm rheoli, Miranda French a Paula Reed, a swyddog datblygu Galluogi Cymru Rhiannon Hicks sydd wedi perfformio gwyrthiau wrth gynnal ein gwaith.

Gyda thîm ymroddedig o Gyfarwyddwyr a staff, ac aelodau ffyddlon, rydym yn ad-drefnu ar gyfer y dyfodol. Bydd projectau'n mynd a dod, ond ni fydd modd tawelu llais pobl anabl Cymru.

**Rhian Davies** *Prif Weithredwraig*

# Adroddiad Effaith

## **NOD 1**

### **Datblygu Anabledd Cymru fel corff cryf o dan arweiniad ei aelodau**

Fel corff ymbarél mae Anabledd Cymru wedi ymrwymo i gefnogi'r aelodau, helpu i ddatblygu cyrff anabl newydd a darparu gwybodaeth, hyfforddiant ac adnoddau.

### **Datblygu Grwpiau Newydd**

Roedd AC yn falch o groesawu tri chorff pobl anabl fel aelodau llawn:

- Pobl yn Gyntaf Sir Benfro
- The Autistic Women's Empowerment Project
- Underdog Trust.

### **Hyfforddiant a Datblygu Adnoddau**

#### **Confensiwn Hawliau Pobl Anabl y Cenhedloedd Unedig a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:**

Cynhaliwyd dau weithdy rhanbarthol 'Beth sy'n digwydd?' ar 16 Gorffennaf, Llanrwst (12 cynrychiolydd) ac 8 Medi, Caerfyrddin (18 cynrychiolydd).

**Cynhadledd Flynyddol:** *Pobl yn mynnu chwyldro: Trafod effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.* 8 Hydref, Gwesty Copthorne, Caerdydd.

Cadeirydd Adrian Masters (golygydd gwleidyddol ITV Cymru). Siaradwyr yn cynnwys: gweinidog iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, yr Athro Mark Drakeford AC; Cathryn Thomas SSIA; Rhian Huws-Williams CCW; comediwr anabl Ted Shiress. Yn ogystal, dangoswyd ffilm gyda chyfraniadau gan gynrychiolwyr ar weithdai rhanbarthol AC (92 cynrychiolydd).

Roedd gwerthusiad o'r Gynhadledd wedi awgrymu bod



gwybodaeth y cynrychiolwyr am y Ddeddf wedi cynyddu o sgôr cyfartalog o 5.9 cyn y digwyddiad i 9.5 allan o 10 wedi hynny.

Nodweddion y Gynhadledd yn ôl y cynrychiolwyr:

*Clywed barn a sylwadau pobl anabl a'u cyrff.*

*Rhwydweithio.*

*Y gwahanol siaradwyr wedi esbonio elfennau gwahanol y Ddeddf. Hefyd, pryderon a gobeithion defnyddwyr gwasanaethau.*

*Deall cyfraniad cyrff eraill a'r dull gweithredu seiliedig ar ddinasyddion.*

## Lleisiau Cymunedol

### Penybont

AC yn rhan o *Siapio Bywydau & Cymunedau*, cynllunio ar y cyd, Cymdeithas Cyrff Gwirfoddol Penybont (BAVO) project Lleisiau Cymunedol y Loteri Fawr NEEDS MUST/ PAN FO ANGEN.

Arweinir y project gan Clymblaid Pobl Anabl Penybont (BCDP) mewn partneriaeth â Cyngor Cymru i'r Deillion ac Anabledd Cymru, gan ddarparu cyfarwyddyd, gwybodaeth a hyfforddiant.

Cynhaliwyd 4 digwyddiad yn y cyfnod Ebrill 2015 - Mawrth 2016 ar 'Deall eich Hawliau' (15 cynrychiolydd); 'Bod yn rhan o wasanaethau' (12 cynrychiolydd) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (42 cynrychiolydd) yn cynnwys llawer o bobl anabl ar draws sir Penybont.







Roedd ymateb y cynrychiolwyr wedi awgrymu lefelau uwch o hyder, diddordeb a brwdfrydedd ymhlith pobl anabl er helpu i ddylanwadu ar bolisiau a siapiau gwasanaethau yn eu hardaloedd.

## Galluogi Cymru

Partneriaeth rhwng Anabledd Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru & Canolfan Byw'n Annibynnol Dewis, gyda chyllid gwerth £318,000 dros dair blynedd ar ffurf Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiad gan Lywodraeth Cymru.



Mae'r project wedi cyflwyno rhaglen hyfforddi chwe mis dros bedwar rhanbarth y wlad. Aeth 64 oedolyn anabl ac 13 person anabl ifanc ar y rhaglen hyfforddi, gyda 31 yn cyrraedd Lefel Un mewn Dinasyddiaeth Actif - Cydraddoldeb a Democratiaeth a 6 yn cyrraedd Lefel Mynediad Un mewn Dinasyddiaeth.



Roedd pob un wedi mwynhau'r rhaglen hyfforddi, gydag un yn dweud:

*Sesiwn hyfforddi diddorol iawn fydd yn profi'n ddefnyddiol wrth helpu pobl anabl i newid cymdeithas.*

Gwahoddwyd cynrychiolwyr rhaglen 1 Penybont a rhaglen 2 Caerfyrddin i seremoni raddio ym mis Ionawr i dderbyn eu tystysgrifau gan Lesley Griffiths AC, gweinidog cymunedau & trechu tlodi. Profodd yn ddigwyddiad o bwys, gydag un cynrychiolydd yn nodi:

*"Diolch yn fawr iawn ar ran y bobl ifanc oedd yn y seremoni wythnos diwethaf. Roeddent wedi mwynhau eu hunain ac yn falch o gael eu gwerthfawrogi am eu gwaith."*

Yn dilyn y seremoni, ysgrifennodd y Gweinidog at AC:

*"Roeddwn yn falch o weld sut mae'r grant Cydraddoldeb a Chynhwysiad yn cyfrannu at broject arloesol fel hwn, gyda chynrychiolwyr mor frwdfrydig a gweithgar. Rwy'n sicr bydd yr hyder a gwybodaeth a ddarparwyd gan y rhaglen yn eu helpu i gyfrannu at eu cymunedau ac i leisio'u barn. Wrth hysbysu pobl anabl o'u hawliau, gallwn nodi, herio a thaclo rhwystrau rhag cydraddoldeb a chynhwysiad. Roedd yn ddathliad gwych."*

Erbyn hyn, mae Galluogi Cymru wedi symud ymlaen i gymal nesaf y project, sef darparu cyngor busnes ar gyfer pedwar corff pobl anabl i'w helpu i ddod yn ganolfannau byw'n annibynnol. Fel rhan o hynny, bydd yn gwahodd cynigion ble bydd y partneriaid yn dewis dau grŵp i





dderbyn cyngor busnes ychwanegol. Yn eu tro, byddant yn dod yn ddwy ganolfan byw'n annibynnol yng Nghymru ar ffurf mentrau cymdeithasol.



## Citizen Directed Co-operatives Cymru

Project arloesol o dan reolaeth partneriaeth rhwng Anabledd Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru. Cyllidwyd gan gronfa arloesi'r Loteri Fawr o fis Hydref 2014 tan fis Mawrth 2018.



Y nod yw helpu pob anabl i leisio'u barn a chael mwy o ddewis a rheolaeth yn eu bywydau wrth ddatblygu mentrau cydweithredol dan arweiniad dinasyddion fel ffordd newydd o reoli taliadau uniongyrchol.

Sefydlwyd er mwyn creu o leiaf un fenter gydweithredol yng Nghymru; cynyddu defnydd o daliadau uniongyrchol a datblygu amgylchedd fydd yn hwyluso sefydlu mwy o fentrau cydweithredol o'r fath.



Trefnwyd y project mewn pedwar cymal:



1. Cymell
2. Cysylltu
3. Rhagori
4. Ymdrechu a Gwerthuso

Mae'r project wedi cwblhau dau gymal: Cymell & Cysylltu. Trefnwyd wyth sioe deithiol o gwmpas y wlad, gan dargedu pedair at awdurdodau lleol a rhanddeiliaid trydydd sector a phedair at ddinasyddion. Y nod oedd codi ymwybyddiaeth o daliadau uniongyrchol, mentrau cydweithredol a sut i fod yn rhan o'r project. Rhoddwyd cyfle i gyfranogwyr ddatblygu syniadau a chynigion i sefydlu mentrau cydweithredol yn eu hardaloedd, i'w hystyried fel rhan o ail gymal y rhaglen - Cysylltu.

Roedd cymal 1 yn cynnwys gwaith cysylltu estynedig ar draws y wlad. Daeth 152 person i'r 8 sioe deithiol. Yn ogystal trefnwyd 49 cyfarfod gyda 167 gweithiwr proffesiynol ac ymwelwyd â 22 corff anabledd, gan gysylltu â 240 person.

Gwerthuswyd profiad y cyfranogwyr:

83% o'r bobl a gysylltodd â'r project wedi adrodd eu bod wedi elwa o ganlyniad, gan wella hyder wrth siarad o fewn grwpiau, cyfarfod pobl newydd, cysylltu ag awdurdodau lleol, ynghyd â hyder cyffredinol wrth ddeall taliadau uniongyrchol a mentrau cydweithredol;

16% wedi ymuno â chorff pobl anabl gyda 33% yn nodi eu bod wedi dod yn fwy gweithgar o fewn y gymuned;



66% yn teimlo'n gryf eu bod yn gallu gwneud gwahaniaeth;


83% o'r bobl yn gysylltiedig â datblygu mentrau cydweithredol wedi adrodd eu bod yn teimlo'n well yn gyffredinol o wneud hynny, gyda mynychu digwyddiadau wedi'u hysbrydoli a'u helpu i deimlo'n fwy positif;

80% wedi dweud bod y digwyddiadau wedi'u gwneud i deimlo'n fwy positif am y dyfodol.

Arweiniodd Cam 1 at dderbyn pum cynnig gan grwpiau amrywiol ar draws y wlad, gan ddewis tri i fynd ymlaen i'r cam nesaf. Trefnodd AC a Chanolfan Cydweithredol Cymru sawl gweithdy ar gyfer y tri grŵp, yn eu hardaloedd yn y gogledd, gorllewin a de ddwyrain. Mae'r tri yn canolbwyntio ar grwpiau gwahanol: pobl hŷn, pobl ifanc anabl, a phlant ac oedolion gydag anableddau dysgu (a'u teuluoedd).

Derbyniwyd ceisiadau gan ddau grŵp am y cyllid a chymorth ychwanegol i fynd ymlaen i sefydlu menter gydweithredol i gefnogi taliadau uniongyrchol. Ar sail meini prawf y project, dewiswyd Menter Taliadau Uniongyrchol Sir Fynwy, fydd yn mynd ymlaen i Gam 3 gyda £50,000 i'w helpu i sefydlu'r fenter. Cyfeiriwyd y grŵp arall am gymorth pellach drwy gynllun newydd Canolfan Cydweithredol Cymru 'Care to Co-operate'.

Croesawyd y cyhoeddiad gan yr Athro Mark Drakeford AC, gweinidog iechyd a gwasanaethau cymdeithasol:



*“Dyma gyfle cyffrous i ddarparu trefn gydweithredol yng Nghymru. Mae taliadau uniongyrchol yn gallu helpu pobl i reoli eu bywydau mewn ffyrdd sy'n bwysig iawn iddynt. Enghraifft wych o weithredu project cydweithredol, fydd yn darparu cyfleoedd i gyrrff ar draws y wlad ddysgu o'r profiad.”*

## **Dull Seiliedig ar Hawliau er Diwallu Cyfrifoldebau at Bobl Anabl, Hyfforddiant Aelodau Etholedig**

Ar ran Llywodraeth Cymru, yn y cyfnod Tachwedd 2015 - Mawrth 2016, trefnodd Anabledd Cymru hyfforddiant diwallu cyfrifoldebau at bobl anabl ar gyfer aelodau etholedig a swyddogion polisi.

Lluniwyd y cwrs ar ôl i AC gyflwyno cais i gyfadran dyfodol tecach Llywodraeth Cymru. Datblygwyd ar y cyd â Chris Tally Evans, ymgynghorydd cydraddoldeb anabledd a contractiwyd i greu a chyflwyno'r hyfforddiant.

Roedd yn cynnwys gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, y Dyletswyddau Cymreig Penodol, Confensiwn Hawliau Pobl Anabl y Cenhedloedd Unedig (UNCRDP) a deddfwriaeth a chyfarwyddyd perthnasol arall, yn ogystal â sut i'w defnyddio i gefnogi dull seiliedig ar hawliau i ddarparu gwasanaethau ar sail y Model Anabledd Cymdeithasol.

Darparwyd nodiadau Cymraeg a Saesneg ar bapur ac arlein yn ystod y cwrs. A datblygwyd nifer o ddogfennau ategol arlein ar blatfform dysgu NHS Cymru <https://learning.wales.nhs.uk/> sydd hefyd yn agored i aelodau a staff awdurdodau lleol.

Yn y cyfnod Ionawr - Mawrth 2016, cynhaliwyd 7 sesiwn hyfforddi hawliau anabledd ar draws y wlad. Mynychwyd gan 101 aelod etholedig a swyddog polisi yn cynrychioli 17 awdurdod lleol Cymreig.

Profodd yr hyfforddiant yn llwyddiannus iawn gyda'r rhan helaeth o'r cynrychiolwyr yn adrodd cynnydd sylweddol yn eu gwybodaeth a dealltwriaeth o amrediad o hawliau

anabledd a materion cydraddoldeb.

Roedd y sesiynau'n arfau defnyddiol wrth danlinellu meysydd ble nad oedd hawliau pobl anabl yn cael eu diwallu ac er diffinio meysydd a heriau i'w tacio yn y dyfodol.

86% o'r cynrychiolwyr o'r farn bod eu gwybodaeth wedi cynyddu ar ôl yr hyfforddiant.

*Sesiwn rhyngweithiol - gwyh! Enghreifftiau - gwyh! Awyrgylch hamddenol. Pawb yn rhydd i siarad.*

*Hyfforddiant rhagorol.*

*Da iawn. Angen un arall yn Sir Ddinbych.*

*Cwrs da iawn, hawdd ei ddeall.*

*Goleuedig.*

*Gallai fod wedi bod yn hirach, roedd mor ddiddorol a llawn gwybodaeth.*

*Diolch yn sesiwn dda, wedi dysgu llawer – gwneud i mi feddwl yn wahanol.*

## **Gwybodaeth**

Mae AC yn parhau i ddarparu gwybodaeth ar gyfer ei aelodau a'r cyhoedd yn gyffredinol ar amrediad o ardaloedd polisi, gan gynnal digwyddiadau ar wahanol themâu ar draws y wlad ar gyfer pobl anabl a'u cyrff. Mae'n gwneud defnydd helaeth o'r rhyngwyd i gyrraedd cynulleidfa ehangach drwy ei wefan, plattfformau cyfryngau cymdeithasol ac ebost. Yn ogystal, mae'n cysylltu â phobl anabl arlein ac fel arall i drafod polisiâu, ymgyrchoedd a phrojectau.



## Gwefan [www.disabilitywales.org](http://www.disabilitywales.org)

Rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2016 ymwelodd dros 30,000 â gwefan AC, gan ddarllen 83,967 tudalen. Derbyniodd 29,919 ymwelydd newydd, a'r tudalennau mwyaf poblogaidd oedd newyddion, amdanom ni, model anabledd cymdeithasol, projectau a digwyddiadau.

Bydd AC yn diweddarau'r wefan yn rheolaidd, gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am brojectau, digwyddiadau, polisiâu ac ymgyrchoedd.

Mae meddalwedd BrowseAloud ar y safle, sef technoleg sy'n darparu adnoddau testun-llais, wrth ychwanegu adnoddau llais a chymorth darllen at gynnwys arlein er mwyn hwyluso defnydd gan bobl sydd angen cymorth darllen. Mae'n cynnwys pobl gyda dyslecsia, anawsterau dysgu, namau golwg a Saesneg ail iaith. Byddant yn elwa o adnoddau sain-gweledol BrowseAloud.



## Cyfryngau Cymdeithasol

Bydd AC yn dibynnu am gymorth gan ei aelodau a'r cyhoedd yn gyffredinol, felly rhaid defnyddio dulliau amrywiol o gyrraedd cefnogwyr, darpar noddwyr a gwirfoddolwyr. Mae cyfryngau cymdeithasol yn gallu bod yn ffordd effeithiol o ddenu cefnogwyr, rhannu llwyddiannau, rhwydweithio gyda chyrrff eraill, cymell pobl i arwyddo ymgyrchoedd, neu ddangos effaith gwaith y corff.



Byddwn yn defnyddio Facebook, Twitter ac You Tube i gyfathrebu a chysylltu â rhwydwaith eang o bobl a chyrrff arlein.

'Hoffwyd' ni gan 1,656 ar Facebook erbyn diwedd y flwyddyn, sef cynnydd o 296.

Cododd nifer ein 'dilynwyr' ar Twitter i 9,133, cynnydd o 1,322 ar y flwyddyn flaenorol.

## e-Newyddion

12 rhifyn e-Newyddion wedi'u dosbarthu i aelodau AC. Eitemau'n cynnwys: Maniffesto Pobl Anabl Cymru; Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru); Cronfa Byw'n Annibynnol; Taliad Annibyniaeth Personol; Troseddau Atgasedd Anabledd; Taliadau Uniongyrchol; Confensiwn Hawliau Pobl Anabl y Cenhedloedd Unedig; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a mwy.

Ym mis Tachwedd 2015, cyhoeddwyd rhifyn arbennig 'Mynd Arlein' wrth gydweithio â Cymunedau Digidol Cymru, rhaglen cynhwysiad digidol gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru a'i gweithredu gan Ganolfan Cydweithredol Cymru.

Mae AC yn cydnabod y rhwystrau sy'n wynebu pobl anabl wrth geisio mynd arlein, yn cynnwys: costau; diffyg sgiliau; dim ymwybyddiaeth o dechnolegau cymorth; gwefannau anhygyrch; ac mae'n dal i weithio ar y maes pwysig hwn. Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â rhaglen cynhwysiad digidol Llywodraeth Cymru, Cymunedau Digidol Cymru, er mwyn taclo'r rhwystrau hyn.

facebook

twitter

YouTube



## NOD 2

### Hysbysu'r llywodraeth a llunwyr penderfyniadau o ddiddordebau pobl anabl er hyrwyddo polisiau ar eu cyfer

#### Ymchwil Anabledd er Byw'n Annibynnol a Dysgu (DRILL)



Rhaglen ymchwil ar draws y Deyrnas Unedig sy'n bartneriaeth rhwng pedwar corff anabledd cenedlaethol y Deyrnas Unedig, Disability Action (Gogledd Iwerddon), Disability Rights UK (Lloegr), Inclusion Scotland ac Anabledd Cymru.

Mae Cronfa'r Loteri Fawr wedi clustnodi £5 miliwn ar gyfer DRILL, i'w dalu dros bum mlynedd yn dechrau Medi 2015. Bydd yn sefydlu 6 project ymchwil mawr ac 20 project llai, fydd yn sefydlu 14 project peilot. Bwriedir lledu'r projectau ymchwil a pheilot hyn ar draws y Deyrnas Unedig.

Sefydlwyd grŵp ymgynghorol cenedlaethol yn y pedair cenedl er mwyn crynhoi corff o arbenigwyr yn cynnwys pobl anabl, academyddion ac arweinwyr meysydd proffesiynol a pholisiau er mwyn gwneud argymhellion ar brojectau i'w hariannu, a chynghori, hyrwyddo, datblygu, gweithredu, monitro a gwerthuso'r project.

Cydgynhyrchu yw ethos y rhaglen, fel bod pobl anabl yn rhan o bob cam, o amlinellu syniadau i brofi canlyniadau ymchwil.

Lansiwyd y rhaglen yng Nghymru ym Mhrifysgol De Cymru, gan y Deon Gwyddorau Bywyd, Dr Martin Steghal. Yna, trefnwyd cyfres o dair sioe deithiol o gwmpas y wlad, ar safleoedd Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Bangor. Amcanion y sioeau teithiol oedd codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen a nodi themâu ar gyfer y cynigion ymchwil.

Mynychwyd y sioeau teithiol gan 61 cynrychiolydd, gyda 66% o'r farn bod eu gwybodaeth am fyw'n annibynnol wedi



codi wrth wneud hynny a 76% wedi adrodd cynnydd yn eu gwybodaeth am ymchwil anabledd. Roedd y blaenoriaethau a godwyd yng Nghymru yn cynnwys cyfiawnder cymdeithasol, lles unigolion, dysgu cynhwysol, diwygiadau lles a thoriadau gwasanaethau cyhoeddus, y newid hinsawdd a chydgyhyrchu.

Crynowyd canlyniadau'r sioeau teithiol mewn adroddiad ar y themâu a ddewiswyd ar gyfer y cynigion ymchwil cyntaf. Mae copi o'r adroddiad yn [www.drilluk.org.uk/disability-research-independent-living-learning-drill/research-findings/](http://www.drilluk.org.uk/disability-research-independent-living-learning-drill/research-findings/)



## Grŵp Anabledd Trawsbleidiol

Grŵp sy'n trafod materion cydraddoldeb anabledd, yn cynnwys gweithredu'r Model Anabledd Cymdeithasol a'r hawl i fyw'n annibynnol.

Yn ystod y flwyddyn cadeiriwyd ar y cyd gan Mark Isherwood AC ac Aled Roberts AC. Cefnogir gan Grŵp Cyfeirio Anabledd Cymru, Mind Cymru, Cyngor Pobl Ddall Cymru a Chyngor Pobl Fyddar Cymru.

Cynhaliodd y Grŵp ddau gyfarfod a ddenodd nifer sylweddol o gynrychiolwyr. Lleoliad y cyntaf oedd Tŷ Hywel, Bae Caerdydd, a'r thema oedd troseddau atgasedd anabledd, gyda'r siaradwr gwadd y Gwir Anrhydeddus Alun Michael, comisiynydd heddlu de Cymru. Cadarnhaodd ei ymrwymiad i daclo troseddau atgasedd anabledd ac amlinellodd waith Heddlu De Cymru yn y maes.

Trefnwyd yr ail gyfarfod yn Wreccsam er mwyn trafod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gyda'r siaradwyr gwadd yn cynnwys Margaret Provis, dirprwy gyfarwyddwraig gwasanaethau cymdeithasol, Llywodraeth Cymru; Mark Jones, pennaeth gwasanaethau corfforol, synhwyrdd a niwrolegol ac iechyd meddwl - gofal cymdeithasol oedolion, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam; Vin West, rhiant ofalwr, Grŵp Mynediad Arfon a Nathan Davies, derbyniwr gwasanaeth.

Cafwyd trafodaeth fywiog o'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau cymdeithasol a'u defnyddwyr, yng nghydestun toriadau i wasanaethau lleol.

## Polisïau ac Ymgynghoriadau

Parhaodd AC i gael dylanwad ar ac ymateb i bolisïau ac ymgynghoriadau'r llywodraeth wrth fod yn rhan o grwpiau rhanddeiliaid, ymateb i ymarferion ymgynghori, coladu sylwadau aelodau a rhoi tystiolaeth.

Cyfrannodd at adolygiad **Llywodraeth Cymru o amcanion cydraddoldeb strategol** wrth lunio adroddiad ar ôl trefnu grŵp

ffocws gyda phobl anabl.

Roedd yn cynnwys edrych ar **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** Cyfarwyddyd & Codau Ymarfer Rhan 2: Eiriolaeth; 'Asesu & Prisiau Ariannol' (ar ran Clymblaid Prisio Cymru); a 'Partneriaeth ac Integreiddio'.

Roedd AC yn rhan o grŵp rhanddeiliaid **Llywodraeth Cymru ar Grant Byw'n Annibynnol Cymru** sydd wedi cymryd lle'r Gronfa Byw'n Annibynnol. Yn ogystal cyhoeddodd ddatganiad mewn ymateb i ymholiadau gan y cyfryngau am gau'r Gronfa Byw'n Annibynnol a chyflwyno'r Grant newydd.

Ym meysydd mynediad a thrafnidiaeth, rhoddodd AC dystiolaeth i **Grŵp Adolygu Bathodynau Glas Llywodraeth Cymru**, gan ddefnyddio 14 ymateb ysgrifenedig gan aelodau ar draws y wlad. Darparodd ymateb i bedwar ymgynghoriad gan awdurdodau lleol ar **Cynlluniau Integreiddiedig Awdurdodau Lleol Deddf Teithio Llesol Cymru** ac fe gyfrannodd at adolygiad o **Gynlluniau Dylunio a Mynediad y Ddeddf Gynllunio**.

Ym maes **Diwygiadau Lles**, gwnaeth ein prif weithredwraig gyflwyniad i Fforwm Rhanddeiliaid Allanol y Gweinidog ar sut oeddent wedi effeithio pobl anabl yng Nghymru.

Hyrwyddodd AC weithrediad **Confensiwn Hawliau Pobl Anabl y Cenhedloedd Unedig**, gan sicrhau byddai'n rhan o reoliadau a chodau ymarfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), yn cynnwys gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol.

Yn ogystal trefnodd ddau weithdy rhanbarthol ar gyfer aelodau ar y Confensiwn a'r Ddeddf ac fe gyflwynodd gynnig i adran dyfodol tecach Llywodraeth Cymru i gynnal wyth sesiwn hyfforddi ar y Confensiwn ar gyfer aelodau etholedig a swyddogion sector cyhoeddus.

Drwy gydol y flwyddyn, parhaodd AC i leisio barn ar ran y sector, yn cynnwys hyrwyddo **Fframwaith Gweithredu Byw'n Annibynnol** mewn amryw grwpiau rhanddeiliaid:



- Rhwydwaith Cofrestr Tai Hygyrch
- Cynghrais Henoed Cymru
- Grŵp Llywio Strategol Cymunedau Digidol Cymru
- Rhwydwaith Cynllun Cymorth Taliadau Uniongyrchol
- Fforwm Cyflawni Potensial DWP
- Fforwm Strategaeth Anabledd & Cyflogaeth Iechyd DWP
- Cynghrais Cymorth dan Arweiniad Dinasyddion Cymru
- Grŵp Cyfeirio Anabledd Cymru
- Clymblaid Cydraddoldeb a Hawliau Dynol WCVA
- Cyngreiriau Iechyd a Gofal Cymdeithasol WCVA
- Fforwm Datblygu Cydweithredol Gofal Cymdeithasol Cymru
- Bwrdd Teithio Llesol Llywodraeth Cymru
- Grŵp Cyllideb Cydraddoldeb Ymgynghorol Llywodraeth Cymru
- Grŵp Arolygu Taliadau Uniongyrchol Llywodraeth Cymru
- Fforwm Cydraddoldeb Anabledd Llywodraeth Cymru
- Grŵp Rhanddeiliaid Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru
- Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Llywodraeth Cymru
- Bwrdd Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru
- Grŵp Taclo Troseddau Atgasedd Ymgynghorol Annibynnol Llywodraeth Cymru

## NOD 3

### Cydweithio mewn partneriaeth ag eraill i gynnal ymgyrchoedd er gwella gwasanaethau a chodi ymwybyddiaeth o faterion anabledd

Mae ymgyrchu ar ran yr aelodau'n dal yn flaenoriaeth i AC, yn arbennig yn yr hinsawdd ariannol bresennol a'r effaith ar allu pobl anabl i fyw'n annibynnol. Yn ogystal ag wynebu gostyngiadau mewn budd-daliadau a gwasanaethau, mae llawer o bobl anabl yn adrodd problemau gydag agweddau rhai o'r cyhoedd. Mae'n debyg bod hynny'n gysylltiedig ag adroddiadau ar y cyfryngau o bobl yn twyllo wrth hawlio budd-daliadau, gan ddweud eu bod yn amharod i weithio ac yn ffugio amhariadau.

O ganlyniad mae AC wedi parhau â'i ymgyrchoedd byw'n annibynnol a throseddau atgasedd anabledd er mwyn gwella ymwybyddiaeth, taclo rhwystrau a lliniaru effeithiau'r dirwasgiad.

### Maniffesto Pobl Anabl: Galluogi Cymru

Cynhaliwyd cyfarfod bord gron rhanddeiliaid cenedlaethol ym mis Mai er mwyn ystyried canlyniadau arolwg AC a'i dri digwyddiad cysylltu rhanbarthol. Roedd cynrychiolwyr naw





corff anabledd a chydraddoldeb cenedlaethol yn bresennol.

Cyhoeddwyd a lansiwyd y Maniffesto ar 17 Medi yn y Senedd (60 cynrychiolydd). Noddwyd y lansiad gan Jenny Rathbone AC, gyda phanel trawsbleidiol wedi ymateb i'r Maniffesto.

Dangoswyd darllediad ar y Maniffesto yn y lansiad gyda chyfraniadau gan aelodau yn y digwyddiadau cysylltu. Yna llwythwyd y darllediad ar sianel YouTube AC <https://www.youtube.com/watch?v=NQ8ix3KSSJI>

Dosbarthwyd y Maniffesto a'r darllediad i aelodau, rhwydweithiau polisi a phleidiau gwleidyddol.

## Troseddau Atgasedd Anabledd

Cadeiriwyd dau gyfarfod (Gorffennaf a Medi) o Grŵp Gweithredu Troseddau Atgasedd Anabledd Cymru gan AC, gan recriwtio aelodau newydd yn cynnwys cynrychiolwyr o gynghorau cydraddoldeb rhanbarthol a heddluoedd ar draws y wlad.

Mewn partneriaeth ag aelodau o'r grŵp, datblygwyd cynllun gweithredu'n gysylltiedig â Fframwaith Gweithredu Troseddau Atgasedd Anabledd Llywodraeth Cymru.





Parhawyd i wasanaethu ar Grŵp Troseddau Atgasedd Anabledd Ymgynghorol Llywodraeth Cymru.

Cyfrannwyd at weithgareddau i hyrwyddo Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Atgasedd Anabledd (10 - 17 Hydref); gan ddiweddarau ffeiliau ffeithiau ar y wefan a chreu tudalen yn nodi gwasanaethau ar gyfer pobl anabl sy'n dioddef troseddau atgasedd yn [www.disabilitywales.org/disability-hate-crime/](http://www.disabilitywales.org/disability-hate-crime/)

## **NOD 4**

### **Datblygu trefniadau cyllid cynladwy**

Adolygwyd strategaeth AC i greu ffynonellau cyllid amgen gan y pwyllgor cyllid, sy'n cynnwys cyfarwyddwyr ac aelodau staff.

Gweithiwyd yn galed i baratoi a chyflwyno cynnig AC am grant gwasanaethau cymdeithasol cynladwy trydydd sector i Lywodraeth Cymru, ac yna i ymateb pan wrthodwyd y cais.

Derbyniodd AC gyllid ar gyfer dau broject llai: gan Gyngor Gofal Cymru i baratoi ffeiliau ffeithiau ar fentrau cydweithredol dan arweiniad defnyddwyr; a gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno wyth sesiwn hyfforddi ar hawliau pobl anabl ar gyfer aelodau etholedig ar draws y wlad.

Yn ogystal, darparodd hyfforddiant cydraddoldeb anabledd ar gyfer BBC Cymru a phwyllgor osgo a symudedd lechyd Cyhoeddus Cymru.

## **NOD 5**

### **Trefniadau llywodraethu a rheoli effeithiol a chynladwy**

Ar ran yr aelodau, mae AC yn pwysleisio ei fod yn gweithredu'n gywir ar bob amser a dros y blynyddoedd diwethaf mae wedi cynnal adolygiadau manwl o'i bolisiau a gweithdrefnau er sicrhau eu bod yn addas at y pwrpas.



Yn y cyd-destun hwnnw mae AC wedi llwyddo i gynnal dwy safon asawdd - Buddsoddwyr mewn Pobl a'r Ddraig Werdd - ac wedi ymrwmo i gael un ychwanegol - PQASSO.

## Buddsoddwyr mewn Pobl



Bydd AC yn cadw ei statws Buddsoddwyr mewn Pobl tan 2019, yn dilyn adolygiad tair blynedd gan aseswr annibynnol. Llwyddodd AC i ddangos ei ymrwymiad i ddatblygu a hyfforddi cyfarwyddwyr, staff a gwirfoddolwyr o fewn y corff. Mae cynnal ein statws yn ystod cyfnod heriol iawn i'r corff yn adlewyrchu pa mor bwysig yw'r maes hwn i AC wrth gynnal ein nodau ac amcanion trefniadol.

## Safon y Ddraig Werdd




Parhaodd AC i gynnal lefel 4 Safon y Ddraig Werdd, safon rheoli amgylcheddol sy'n ymestyn i lefel 5 fel y pwynt uchaf. Mae lefel 4 yn galw am ddatblygu system rheoli amgylcheddol ffurfiol ac adrodd ar lwyddiannau amgylcheddol. Canmolwyd Anabledd Cymru am gyrraedd safon mor uchel fel corff cymharol fach.

## PQASSO

Dyma'r safon asawdd blaenllaw a ddatblygwyd ar gyfer y sector gwirfoddol. O'i defnyddio'n systematig, mae'n helpu cyrff i weithredu'n fwy effeithiol. Mae PQASSO yn trafod pob elfen o gorff, o lywodraethu i ddarparu gwasanaethau a monitro canlyniadau.

Derbyniwyd AC ar raglen PQASSO yng Nghymru WCVA, gan dderbyn mentor i'w helpu i gael y safon, gyda'r nod o wneud hynny o fewn dwy flynedd.

# Strwythur y Corff





## Aelodau

AC 2015/2016

Caffaeliadau Prifysgol Caerdydd  
Action on Disability and Work UK  
Action on Hearing Loss Cymru  
Age Concern Cymru  
Bwrdd Iechyd Cymunedol Aneurin Bevan  
Antur Teifi  
Grŵp Mynediad Arfon  
Gofal Arthritis Cymru  
Breakthrough UK Limited  
Clwb Anabledd Aberhonddu a'r Cylch  
Clymblaid Pobl Anabl Penybont  
British Limbless Ex-Service Mens Association  
C.L.I.P  
Cymdeithas Tai Cadwyn  
Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro  
Mynediad a Byw'n Annibynnol Caerdydd a'r Fro  
Tai Cymunedol Caerdydd  
Pobl yn Gyntaf Caerdydd  
Cyngor Trydydd Sector Caerdydd  
Caerdydd Broydd a Chymoedd  
Cymdeithas Tai YMCA Caerdydd  
Clymblaid Gweithredu Anabledd Sir Gâr  
Grŵp Mynediad Anabledd Sir Gâr  
Catch Up Ltd  
Canolfan Byw'n Annibynnol De Gwynedd  
Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ceredigion  
Plant yng Nghymru  
Dinas a Sir Abertawe  
Cymdeithas Tai Clwyd Alun  
Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru  
Grŵp Mynediad Gwirfoddol Sir Conwy  
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy  
DAGTHA  
Destek Accessibility Technology Solutions  
Canolfan Byw'n Annibynnol Dewis  
Grŵp Gweithredu Anabledd Cymru

Project Cyngor Anabledd  
Celfyddydau Anabledd Cymru  
Disability Law Service  
Canolfan Adnoddau Anabledd  
Chwaraeon Anabledd Cymru  
Disabled People Together (Ceredigion)  
Ehlers-Danlos Support UK  
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol  
Fieldsman Trails - Access Consultancy  
First Choice Housing Association Ltd  
Fforwm Anabledd Sir y Fflint  
GAVO  
Cyngor Cymuned Glyn-nedd  
Groundwork Gogledd Cymru  
Grŵp Mynediad Meirionnydd  
Cŵn Tywys  
Menter Cwm Gwendraeth (Job Force Wales)  
Clwb Modurwyr Anabl Gwent  
Tîm Cydlyniant Heddlu Gwent  
Headway Cardiff/Caerdydd  
Headway Swansea/Abertawe  
Hypermobility Syndromes Association  
Law Works  
Anabledd Dysgu Cymru  
Cymdeithas MS Cymru  
Cyngor Tref Machynlleth  
Mencap Cymru  
Sefydliad y Deillion Merthyr Tudful  
Cartrefi Cwm Merthyr  
Cyngor Sir Fynwy  
Cymdeithas Tai Sir Fynwy  
Cyngor Tref Nantyglo a Blaenau  
Cyngor Tref Arberth  
Comisiwn Cenedlaethol Pobl gydag Anabledd  
Cyngor Castell-nedd Porth Talbot  
Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Porth Talbot  
Grŵp Gweithredu Rhwydwaith Anabledd Castell-nedd  
Porth Talbot  
Grŵp Mynediad Casnewydd



Cartrefi Dinas Casnewydd  
Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol GIG  
Grŵp Mynediad Sir Benfro  
Pobl yn Gyntaf Sir Benfro  
Cyngor Tref Penarth  
Pobl yn Gyntaf Powys  
Remploy Ltd  
Grŵp Mynediad Rhondda Cynon Taf  
Cyngor Rhondda Cynon Taf  
Pobl yn Gyntaf Rhondda Cynon Taf  
RNIB Cymru  
Cymru Ddiogelach  
SAIL  
Scope  
See Around Britain  
Sefydliad St Loyes Foundation  
Sense Cymru  
Services for Independent Living (s4il)  
SEWREC  
Shaw Trust  
Heddlu De Cymru  
Cymdeithas Strôc Cymru  
Gofal a Thrwsio Abertawe  
Menter Anabledd Abertawe (SCVS)  
Cyngor Cymuned Ffynnon Taf  
Tai Pawb  
TARAN Disability Forum Ltd  
Autistic Womens Empowerment Project  
Cronfa Goffa Keith Morris  
UNISON Cymru/Wales  
Unite The Union  
Prifysgol Morgannwg  
Cyngor Bro Morgannwg  
Vision Support  
Cyngor Pobl Fyddar Cymru  
Cyngor Deillion Cymru  
Gwasanaethau Asesu Symudedd a Gyrru Cymru  
Grŵp Mynediad Ynys Môn  
Lleisiau Ifanc er Dewis